

CYPE(5)-23-30 - Papur i'w nodi 6

**Kirsty Williams AS/MS**  
**Y Gweinidog Addysg**  
**Minister for Education**

Eich cyf/Your ref -



**Llywodraeth Cymru**  
**Welsh Government**

Lynne Neagle AS  
Cadeirydd Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg  
Senedd Cymru

5 Hydref 2020

Annwyl Lynne

### **Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg – Adroddiad ar addysgu o bell a COVID-19**

Diolch am y copi o'r adolygiad a gomisiynwyd gennych o addysgu a dysgu o bell, a gynhaliwyd gan yr Athro Sofya Lyakhova o Brifysgol Abertawe. Rwyf wedi darllen yr adroddiad gyda diddordeb ac wedi'i drosglwyddo i'm swyddogion; y rhai sy'n arwain ar weithrediadau ysgolion a'r rhai sy'n gweithio ar faterion polisi ehangach yn gysylltiedig â chynnal Parhad Dysgu a'n Rhaglen Dysgu Carlam.

Fel chithau, rwyf wedi ymrwymo i sicrhau bod ein dulliau gweithredu'n seiliedig ar dystiolaeth gadarn a'r ymchwil ddiweddaraf, gan dynnu nid yn unig o'n profiadau ein hunain ond hefyd adeiladu ar dystiolaeth ryngwladol ac enghreifftiau o wledydd eraill.

Mae'n bleser gennyf nodi bod canfyddiadau'r darn hwn o waith yn gyson â'r dystiolaeth sy'n dod i'r amlwg o'r gwaith y mae fy swyddogion yn ei wneud ar draws y system gyda'n Sefydliadau Addysg Uwch a phartneriaid eraill a chyda sefydliadau rhyngwladol fel yr OECD.

Mae fy swyddogion hefyd yn gweithio'n agos gyda sefydliadau haen ganol i gyd-lunio Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Ymchwil ac Ymholiad Addysgol. Bydd y Strategaeth hon yn cefnogi'r rhaglen diwygio addysg ehangach, gan gynnwys y cwricwlwm ysgol newydd a'r blaenoriaethau a nodir yn Cenhadaeth Ein Cenedl.

Un fenter sydd eisoes ar y gweill sy'n gysylltiedig â'r gwaith hwn yw prosiect i ariannu ymchwil gydweithredol gan ein partneriaethau Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA). Bydd y prosiect hwn yn galluogi prifysgolion ac ysgolion i wella'r ddarpariaeth ar gyfer athrawon dan hyfforddiant. Mae'r lleoliadau AGA yn gweithio gyda'i gilydd, ar ôl ffurfio partneriaethau cydweithredol, i edrych ar agweddau penodol o effaith COVID ar AGA a byddant yn defnyddio eu canfyddiadau i ddod i gasgliadau am ei effaith yn ehangach.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN


[Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru)  
[Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales](mailto:Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Nodaf farn y pwyllgor ar ailagor ysgolion a chytunaf fod cadw ein hysgolion, ein colegau a'n lleoliadau ar agor yn flaenoriaeth allweddol. Byddaf yn gwneud popeth o fewn fy ngallu i gefnogi hyn wrth symud ymlaen.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Kirsty Williams', written in a cursive style.

**Kirsty Williams AS/MS**

Y Gweinidog Addysg

Minister for Education